

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Cymunedau Cryf held at Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga on Dydd Iau, 18fed Tachwedd, 2021 at 10.00 am

Councillors Present

County Councillor S. Woodhouse (Chairman)
County Councillor (Vice Chairman)

County Councillors: C.Edwards, R. Harris,
V. Smith, J.Treharne, M. Powell and P. Jordan

Also in attendance County Councillors:

APOLOGIES: Councillors A. Easson

Officers in Attendance

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Alan Burkitt, Swyddog Iaith a Chydraddoldeb
David Jones, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd

1. Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd yna ddatganiadau o fuddiant.

2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd.

Ni dderbyniwyd unrhyw gyflwyniadau cyhoeddus.

3. Adroddiad Perfformiad Diogelu'r Cyhoedd 2020/21 ac ymateb yr Adran i'r pandemig Coronafeirws

Roedd David Jones a Gareth Walters wedi cyflwyno'r adroddiadau ac wedi ateb y cwestiynau gan yr Aelodau gyda Gillian Dicken.

Her:

O ran yr ymateb i'r pandemig, a fyddech yn gwneud rhywbeth yn wahanol flwyddyn nesaf o'i gymharu â'r llynedd?

Rydym yn ystyried yr hyn a wnaethom drwy gyfrwng Aneurin Bevan: mae'r 6 tîm 'Profi, Orlhain a Diogelu' yn ystyried y gwersi sydd wedi eu dysgu ayyb. Roeddem wedi ymateb yn dda, gyda'r trefniadau llywodraethu wedi eu cadarnhau yn gyflym ac wedi gweithio'n dda. Rydym wedi cynnig adborth nad yw cyhoeddiadau ar b'nawn Gwener yn ddefnyddiol ar gyfer y rhengflaen, gan fod darparwyr (e.e. ysgolion) eisoes yn brysur wrth geisio dehongli'r cyhoeddiad cyn diwedd yr wythnos. Gwers arall yw y byddai'n ddefnyddiol cyd-lunio ychydig o'r canllaw gyda'r swyddogion rhengflaen e.e. y Gweithdrefnau gweithredol Safonol, gan fod llawer iawn ohonynt

wedi eu cyhoeddi. Bydd yna adroddiadau rhanbarthol a chenedlaethol ar y gwersi sydd wedi eu dysgu a'r hyn y byddem wedi ei wneud yn wahanol.

Faint o fusnesau neu unigolion ydych wedi erlyn yn y 12 mis a beth oedd y canlyniad?

Roedd wedi mabwysiadu agwedd lle'r oeddem yn ceisio annog defnyddwyr busnes, yn hytrach na'n ffocysu ar orfodaeth. Roedd Trwyddedu wedi cyhoeddi 8 hysbysiad gwella e.e. ar gyfer cwsmeriaid tafarn sydd yn tramgwyddo'r rheolau - roeddem wedi mynd at y Goruchwylydd Safle dynodedig ac wedi delio gyda'r cwynion ac wedi ymweld eto gyda'r safle er mwyn sicrhau bod pethau wedi gwella. Mae Heddlu Gwent yn hapus mynychu canol y trefi ar nos Sadwrn a mynd i dafarndai gwahanol, sy'n seiliedig ar ein cyngor. Bydd llawer ohonynt allan yn ar 'Black Friday'. Yn sgil ein ffocws yn gweithio gyda busnesau yn hytrach na'u gorfodi, mae ond llond llaw o lefydd wedi eu herlyn.

A oedd unrhyw le wedi ei erlyn gan nad oedd yr hylif diheintio dwylo yn cydymffurfio gyda'r safonau?

Yn ffodus, nid oedd llawer o gwmnïau yn creu'r hylif diheintio yma, oni bai am ambell fragdy a oedd wedi dechrau gwneud hyn. Roeddem wedi cynnig cyngor iddynt er mwyn medru creu'r hylif. Roedd unrhyw beth a oedd yn methu cydymffurfio gyda'r safonau yn cael ei gasglu a'i ddifa. Roedd y wybodaeth wedi ei throsglwyddo wedyn i'r awdurdod cartref er mwyn iddynt hwy gymryd camau gweithredu. Byddwn yn cadarnhau ag Aelodau'r nifer o achosion yr ydym wedi erlyn. Ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol (PPE), rydym eto yn ceisio cynnig cyngor, yn gweithio'n agos gyda'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch, sydd wedi bod yn rhagweithiol yn cynnal gwiriadau. Mae busnesau Sir Fynwy wedi gwrandao ar y cyngor a'i ddilyn. Rydym wedi cyhoeddi 22 hysbysiad gwella; 9 yn Lletygarwch, 6 yn Manwerthu Bwyd, 1 yn Manwerthu a 6 mewn gwasanaethau cyswllt personol agos, fel arfer siopau torri a thrin gwallt.

Pa effaith y mae pasbortau Covid yn ei gael ar berfformiad y tîm?

Rydym wedi ceisio annog busnesau i gydymffurfio gyda phasbortau. Eto, mae cydymffurfiaeth wedi bod yn dda iawn. Nid oes achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth gyda'r gofynion PPE. Bydd pasbortau yn ddefnyddiol iawn ar gyfer digwyddiadau sydd i'w cynnal e.e. y ras Nadolig ar Faes Rasio Ceffylau Cas-gwent gyda mwy na 8,000 o bobl. Nid yw'r Heddlu yn mynd i wneud unrhyw waith gorfodi ac felly, mae'r pwyslais ar fusnesau, sydd nawr yn cynnwys theatrau a sinemâu. Os ydym yn derbyn unrhyw gyhuddiadau o ddiffyg cydymffurfiaeth, byddwn yn ymateb yn briodol.

Pwy sydd yn mynd i ofalu am Drwyddedu Strydoedd yn y Dyfodol?

Mae hyn dal yn cael ei drafod. Gan ddefnyddio Stryd Cross yn y Fenni fel enghraifft, rhoddwyd grantiau ac rydym wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr Adran Briffyrdd. Bydd rhaid i ni adrodd nôl i'r Pwyllgor a chadarnhau'r manylion maes o law.

A oes modd i ni fynd yn ôl i osod pwyslais ar fynd i'r afael gyda'r broblem o tipio anghyfreithlon yn y dyfodol?

Rydym wedi erlyn dau achos yn llwyddiannus, a dylai hyn ddanfôn neges gref at eraill. Byddwn yn sicr yn ceisio rhoi blaenoriaeth i'r gwaith hwn eto Ond mae'n anodd dal troseddwr, a hynny'n sgil amser a lleoliad y troseddau.

Mae 'Profi, Orlhain a Diogelu' wedi bod yn wasanaeth ardderchog. A oeddech wedi trefnu hyn neu ai'r awdurdod iechyd sydd yn gyfrifol?

Mae'n cael ei ddarparu'n bennaf gan Gyngor Sir Fynwy. Mae staff gennym ar gytundeb sydd yn gweithio o fewn ein telerau ac amodau. Rydym yn gweithio gyda phob achos o drosglwyddiad cymunedol sydd yn cynnwys mwy na 90%, tra bod y bwrdd iechyd yn delio gyda chleifion mewnol. Rydym yn delio gyda thua 80 o achosion y diwrnod. Rhaid i ni weithio gydag ysgolion er mwyn ceisio lleihau'r ymlediad. Mae'r gwasanaeth hwnnw wedi bod yn ardderchog.

A yw'r cynnydd mewn cwynion am reoli plâu yn ymwneud gyda gweini bwyd yn yr awyr agored neu mwy o bobl yn bwyta cludfwyd?

Mae modd ei briodoli o bosib i bobl yn aros gartref. Mae'r rhan fwyaf o gwynion yn dod gan aelodau'r cyhoedd ac nid ydynt yn ymwneud gyda busnesau. Mae'n medru bod mor syml â rhywun sydd yn gweithio gartref ac o bosib yn gweld llygoden ffyrnig yn mynd drwy'r ardd, sef rhywbeth na fyddent wedi gweld pe baent yn y swyddfa. Mae hyn yn gwneud yn iawn am y gostyngiad yn y nifer sydd yn ymwneud gyda busnesau bwyd: roedd gwastraff bwyd wedi gostwng oherwydd roedd yna gyfnod clo rhwng Rhagfyr a Mawrth, ac nid oedd busnesau bwyd ar agor. Mae'n gyson gyda'r cynnydd mewn cwynion am sŵn: roedd hyn wedi cynyddu hefyd gan fod pobl yn treulio cymaint o amser gartref.

O ran y synwryddion ansawdd aer yn y pedair ysgol, mae'r adroddiad yn sôn am y 'data a gasglwyd a'r sgôp y bydd hyn yn offeryn addysgol bwysig' - a yw hyn yn cael ei ddatblygu?

Rydym am ymgysylltu ysgolion o ran hyn gan ei fod yn ymwneud gyda data byw. Roeddem wedi targedu Trefynwy a Chas-gwent gan fod yna gefnffyrdd sylweddol yn agos. Rydym yn ystyried hyn fel offeryn addysgol – os yw rhywun yn dioddef asthma, byddai'n ddefnyddiol cael gwybod os yw'r llygredd yn wael ar ddiwrnod penodol er enghraifft. Nid yw hyn wedi digwydd eto oherwydd mae'r ysgolion wedi bod mor brysur yn ymateb i Covid.

Pa gyfran o fusnesau sydd wedi medru ail-ddechrau?

Tua 10% o'r 101 busnes newydd a agorodd yn 2020/21. Rydym yn gwthio am broses drwyddedu ar gyfer busnesau bwyd fel bod rhywun yn medru sefydlu busnes bwyd ar ôl colli swydd er enghraifft. Mae'n medru bod yn dipyn o faich i ddechrau busnes bwyd, ac mae angen llawer o gyngor wrthym. Mae'r nifer o fusnesau sydd wedi agor wedi cynyddu ers yr adroddiad

ac mae'r ffigwr erbyn hyn yn fwy na 170. Ni fyddwn yn gwybod yr union rif sydd wedi cau tan ein bod yn cynnal yr ymweliadau.

A fydd yna broblem o gŵn yn cael eu hesgeuluso pan fydd pobl yn mynd yn ôl i'r gwaith?

Mae hyn yn sicr yn bryder sydd wedi ei rannu gan elusennau gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r cytundeb Cŵn Strae gennym sydd o bosib yn medru arwain at gynnydd yn y nifer o gŵn strae. O'n persbectif ni, roedd Operation Scout wedi ymweld ag eiddo yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar gan arwain at 240 o gŵn yn cael eu symud oddi yno. Mae hyn yn codi cwestiynau ynglŷn â ble y mae modd eu cadw ac yn rhywbeth i ni ystyried ac rydym wedi codi hyn gyda Llywodraeth Cymru. Gyda'r prosiect, rydym yn ceisio gwneud y cysylltiadau yma h.y. gyda thasglu'r llywodraeth a chynnig model i Gymru fel nad oes modd gwerthu un ci bach sydd heb ei gofrestru neu sydd heb drwydded. Efallai nad yw'n drwydded fasnachol ond byddai dal angen cofrestru. Byddai creu system ganolog ar gyfer casglu data microsglodyn yn bwysig iawn.

A yw Cyngor Sir Fynwy yn cynnig hyfforddiant ar gyfer tystysgrifau Hylendid Bwyd?

Mae ein tîm yn darparu hyfforddiant hylendid bwyd, ond yn sgil y gwaith arolygu a cheisio cwblhau'r ôl-groniad, nid yw hyn wedi bod yn flaenoriaeth. Ni fyddwn yn gwneud hyn am sbel. Mae yna gorff arall o fewn Cyngor Sir Fynwy sydd yn darparu'r hyfforddiant, ac rydym yn gobeithio gweithio gyda hwy.

Crynodeb y Cadeirydd:

Mae'r pandemig wedi gosod llawer o bwysau ychwanegol ar y Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd, a oedd eisoes o dan bwysau cyn y pandemig, ac felly, mae'r adroddiad hwn wedi ein caniatáu ni i gymharu'r gwaith yr oeddynt yn gwneud cyn y pandemig a'r hyn a wnaed yn ystod y pandemig.

Mae'r Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yn gwneud gwaith eang iawn, sydd yn cynnwys Iechyd Amgylcheddol, Safonau Masnach Anifeiliaid Iechyd a Thrwyddedi. Rydym wedi clywed bod y cyfnodau clo wedi arwain at gynnydd yn y nifer o gwynion iechyd amgylcheddol, yn amrywio o sŵn i aflonyddu, tipio anghyfreithlon a chynnau tân a baw cŵn, yn sgil mwy o bobl yn eu cartrefi a mwy o bobl yn gweld y digwyddiadau yma.

Mae'r timau hefyd wedi gorfod delio gyda'r tasgau bob dydd, yn cynnal ymweliadau gyda sefydliadau er mwyn diogelu'r cyhoedd rhag hylendid truenus yn ogystal â chefnogi busnesau yn ystod y pandemig. Rydym wedi clywed fod yna broblemau penodol ag adnoddau ym maes iechyd anifeiliaid yn sgil prinder staff a'r gwaith ychwanegol fel y rhaglen Bridio Cŵn, sydd yn bartneriaeth y mae Sir Fynwy yn ei harwain.

Mae ein gwaith craffu heddiw wedi ein harwain i ddod i'r casgliad fod y Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd wedi perfformio'n anhygoel yn ystod y pandemig, yn enwedig y Tîm Iechyd Amgylcheddol sydd wedi angen sefydlu Tîm 'Olrhain, Profi a Diogelu' ddydd a nos, 7 diwrnod

yr wythnos ynghyd â'r cyfrifoldebau eraill. Rydym yn cydnabod fod darparu'r gwasanaeth ychwanegol hwn wedi bod yn dipyn o faich.

Rydym yn cefnogi eich bod wedi mynegi'r pryderon yma am adnoddau gyda'r Cabinet. Hoffem ddiolch i chi a'ch tîm am eich gwaith pwysig ac rydych wedi ymgymryd â'ch gwaith yn effeithiol iawn yn ystod cyfnod digynsail. Diolch i chi am gyflwyno eich adroddiad i ni heddiw.

Gofynnodd y Cyngorydd Treharne bod yr elfen drwyddedi o'r adroddiad yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Trwyddedu.

4. Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Roedd Alan Burkitt wedi cyflwyno'r adroddiad ac wedi ateb cwestiynau'r Aelodau.

Her:

O ran anabledd, a ydym yn medru cynnig cyflogaeth i bobl sydd yn agosáu at ymddeoliad, neu wedi ymddeol?

Y cwestiwn yw a oes yna gyfyngiad ar y person yr ydym am gyflogi, o fewn y nodweddion gwarchoddedig: er enghraifft, ni ddylai oedran wneud gwahaniaeth ynglŷn ag a ddylid cyflogi rhywun. Bydd person hŷn yn cynnig cyfoeth o brofiad ond mae angen taro cydbwysedd rhwng hyn a'r angen i gyflwyno gweithwyr iau i'r sefydliad. Mae'r sefyllfa gyfredol o ran gweithio gartref wedi newid pethau - er enghraifft, mae person ag anabledd corfforol a fyddai wedi cael trafferth yn teithio i'r swyddfa nawr yn medru gweithio gartref gyda llai o gyfyngiadau. Gydag achos diweddar o berson ifanc ag awtistiaeth a'i gyflogwr yn ansicr sut i ddiwallu ei anghenion, rydym wedi gweithio er mwyn trefnu profiad gwaith ar ei gyfer a'i fentora. Felly, mae llawer o waith i'w wneud yn y maes hwn sydd yn cael ei wneud yn y cefndir.

Mae'r term 'cyflog bwllch rhwng y rhywiau' yn peri penbleth yn sgil y gwahaniaeth rhwng y swyddi a'r gwahaniaeth rhwng y sawl sydd yn gwneud yr un rôl. Ai term Llywodraeth Cymru yw hwn?

Ydy - nid yw'r bwllch o reidrwydd yn ymwneud gyda'r gwahaniaeth rhwng y sawl sydd yn gwneud yr un ôl ond mae'n cymharu swyddi tebyg - gyda lefelau o gyfrifoldebau cymharol. Er enghraifft, fel cymdeithas, mae yna gwestiwn ynglŷn â'r angen i hurio mwy o ofalwyr (sydd yn tueddu i fod yn fenywod) - a oes angen i ni asesu'r sgiliau sydd angen i fod yn ofalwr un-i-un, ac ailystyried yr hyn y maent yn cael eu talu, yn sgil yr hyn y maent yn cyfrannu ac yn darparu? Mae'n anodd cynnig manylion penodol ond mae'n ymwneud gyda phroblem sydd yn golygu, yn hanesyddol, nad yw gyrfa sydd wedi dominyddu gan fenywod yn cael ei thalu'r un peth â gyrfa sy'n cael ei dominyddu gan ddynion sydd â sgiliau cyfatebol. Ni ddylid cael ystrydebau rhyw nawr o fewn swyddi ac mae angen newid hyn. Mae'r bwllch cyflog rhwng y rhywiau yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni adrodd arno fel rhan o'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Mae'r bwloch cyflog rhwng y rhywiau yn ymwneud â'r geiriad. Cafwyd problem yn y gorffennol o fenywod yn cael eu talu'n llai na dynion tra'n gwneud yr un rôl. Ar y llaw arall, mae yna rai dynion sydd yn aros gartref nawr gan fod y partner yn medru ennill mwy o arian, ac felly, mae pethau'n dechrau newid.

Oes, mae cryn ffordd i fynd ond rydym yn gweithio ar hyn.

Ar dudalen 11, amcan 3, mae yna gyfeiriad at y platfform digidol 'Box Clever'. A ydych wedi ail-ddechrau profi hyn?

Ar yr adeg yr oedd yr adroddiad yn cael ei lunio, cafodd ei oedi yn sgil y pandemig. Nid oes yna wybodaeth bellach ar gael eto ond gallaf gadarnhau hyn a diweddarau Aelodau.

Pa effaith y bydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn cael ar yr adroddiadau yma?

Mae nawr yn rhan o'r broses Asesiadau Integredig (cafodd ei gyflwyno fis Mawrth diwethaf). Pan mae swyddogion yn cynnal Asesiad Effaith, mae'n rhaid iddynt ystyried y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol h.y. os oes rhywbeth yn yr adroddiad o bosib yn mynd i gael effaith ariannol, rhaid iddynt ystyried a thrafod hyn. Hyd yma, mae wedi bod yn fwy tebygol fod hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses o lunio'r Gyllideb neu os ydym yn ystyried strategaeth brisio er enghraifft. Nid yw pob adroddiad sydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet, Cyngor neu Aelodau Cabinet Unigol yn effeithio ar benderfyniadau ym mhob un maes. Nid oes yna esiampl benodol yn y broses Asesiad Effaith Integredig hyd yma.

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolch i'r Swyddog Burkitt am yr adroddiad. Mae'r Pwyllgor yn derbyn yr argymhellion.

5. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Bu'n rhaid dod â'r Pwyllgor i ben yn gynt na'r disgwyl yn sgil trafferthion technegol. Bydd yr eitem hon o'r agenda yn cael ei ystyried yn y cyfarfod nesaf.

6. Blaenraglen Gwaith Cymunedau Cryf

Bu'n rhaid dod â'r Pwyllgor i ben yn gynt na'r disgwyl yn sgil trafferthion technegol. Bydd yr eitem hon o'r agenda yn cael ei ystyried yn y cyfarfod nesaf.

7. Blaenraglen Gwaith y Cabinet a'r Cyngor

Bu'n rhaid dod â'r Pwyllgor i ben yn gynt na'r disgwyl yn sgil trafferthion technegol. Bydd yr eitem hon o'r agenda yn cael ei ystyried yn y cyfarfod nesaf.

8. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

25ain Ionawr 2022.

The meeting ended at **11.03 am**